# Adroddiad ar y Penderfyniad Drafft ar gyfer y Pumed Cynulliad

**Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Mawrth 2015**

## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff.  Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Sandy Blair CBE DL (Chair)**

**Mary Carter**

**Stuart Castledine**

**Yr Athro Monojit Chatterji**

**Yr Athro Laura McAllister**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gareth Price,** Clerc

**Dan Collier,** Dirprwy Glerc

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

# Cynnwys


**Cyflwyniad y Cadeirydd .......... 4**

**Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn .......... 6**

**Prif newidiadau a gynigir i'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad .......... 8**

Pennod 1: Egwyddorion Cymorth Ariannol .......... 8

Pennod 2: Rheolau cyflwyno ceisiadau .......... 8

Pennod 3: Taliadau Aelodau .......... 8

Pennod 4: Gwariant ar Lety Preswyl .......... 14

Pennod 5: Siwrneiau'r Aelodau .......... 14

Pennod 6: Costau Swyddfa .......... 15

Pennod 7: Cymorth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad .......... 15

Pennod 8: Cymorth i Grwpiau .......... 17

Pennod 9: Aelodau sy'n Gadael eu Swyddi .......... 22

# Cyflwyniad y Cadeirydd

Heddiw [6 Mawrth], cyhoeddodd y Bwrdd Taliadau ei Benderfyniad Drafft ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae'n nodi'r rhan fwyaf o'r ffyrdd y dylid cefnogi a thalu Aelodau'r Cynulliad yn dilyn Etholiadau Cyffredinol Cymru ym mis Mai 2016.

Rydym yn credu ei fod yn Benderfyniad sy'n addas ar gyfer y Pumed Cynulliad; un sy'n gosod pecyn newydd ar gyfer senedd newydd gyda rhagor o bwerau a chyfrifoldebau. Mae'r Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi trawsbleidiol a nodir yn y Papur Gorchymyn, ar 27 Chwefror 2015, yn arwydd o setliad datganoli newydd i Gymru. Bydd gan y Cynulliad nesaf ragor o bwerau mewn meysydd fel trafnidiaeth, ynni, yr amgylchedd ac etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn ogystal â'i weithredoedd ei hun – mae'r rhain yn ychwanegol at y pwerau trethu newydd a roddwyd yn Neddf Cymru 2014. Bydd y Pumed Cynulliad yn wahanol iawn i'w ragflaenwyr. Mae'n bosibl, hyd yn oed, y bydd yn cael ei alw'n Senedd.

Er bod y rhain yn drefniadau newydd, mae ein hadolygiad hyd yma wedi canfod llawer sy'n gweithio'n effeithiol. Lle'r oedd pethau yn gweithio, yn parhau i fod o werth a/neu nad ydym yn teimlo y gellid eu gwella, maent wedi cael eu cadw.

Lle rydym wedi gwneud newidiadau, maent wedi bod yn bennaf oherwydd un o dri rheswm:

- I fynd i'r afael â gallu'r Aelodau sy'n effeithio ar Aelodau mewn sefydliad cymharol fach ac yn sgil ei gyfrifoldebau cynyddol;
- I wella eglurder y Penderfyniad, i Aelodau, darpar ymgeiswyr a'r cyhoedd;
- I gynyddu'r hyblygrwydd sydd ar gael i Aelodau er mwyn eu galluogi i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u lwfansau i gefnogi'r gwaith o wneud eu rôl.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynnal ymgyngoriadau ar wahân ar bob un o bedwar meysydd y Penderfyniad: Cyflogau, Pensiynau, Lwfansau a Chymorth. Mae'r Penderfyniad Drafft hwn yn dwyn ynghyd y canlyniadau ar gyfer yr holl ymgyngoriadau blaenorol a hefyd yn cyflwyno rhai syniadau newydd ar gymorth i grwpiau pleidiau.

Anogaf unrhyw un sydd â diddordeb i rannu eu syniadau ar y drafft hwn cyn i ni gyhoeddi ein Penderfyniad terfynol.

Er ein bod yn croesawu neu gynigion eraill ar bob agwedd ar y Penderfyniad Drafft, byddem yn croesawu'n benodol sylwadau ar yr adran yn ymwneud â chymorth i grwpiau pleidiau, gan nad ydym wedi ymgynghori ar yr agwedd hon o'r blaen, ac ar unrhyw ystyriaethau o ran cydraddoldeb.

Mae'r testun isod yn nodi'r prif newidiadau ym mhob pennod o'r Penderfyniad Drafft, o gymharu â'r Penderfyniad ar gyfer y flwyddyn olaf o'r Cynulliad hwn (2015-16). Mae hefyd yn cynnwys adran fer yn nodi ein hamcangyfrif o'r costau o dan bob pennawd. Rydym wedi gwneud penderfyniad cydwybodol i fuddsoddi yn ansawdd a nifer y Pumed Cynulliad. O ganlyniad, byd y gost gyffredinol yn codi, er gwaetha'r gostyngiadau rydym wedi gwneud mewn meysydd eraill.



Sandy Blair CBE
**Cadeirydd**
**Bwrdd Taliadau**

# Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Er yr ymgynghorwyd â nifer o'r cynigion yn y ddogfen hon, dyma'r tro cyntaf yr ydym wedi rhoi'r pecyn cyfan at ei gilydd a chyflwyno barn y Bwrdd Taliadau ar ôl ystyried yn ofalus ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law ym mhob cyfnod o Adolygiad o'r Penderfyniad. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill.

Mae'r cynigion ar gyfer Cymorth i grwpiau pleidiau ym Mhennod 8 yn newydd.

Er mwyn bod yn dryloyw, mae'r Bwrdd Taliadau wedi cytuno y bydd yn rhoi ymatebion i ymgyngoriadau cyhoeddus ar ein tudalennau gwe. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno eich sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **8 Ebrill 2015**.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu cyhoeddi ei Benderfyniad terfynol a'r adroddiad cysylltiedig ddiwedd mis Mai 2015.

Anfonwch unrhyw ymatebion i **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

# Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn fwy na 12 mis cyn dechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016 i ganiatáu i ddarpar ymgeiswyr yn yr etholiad gael syniad clir o ba gymorth a thaliadau fydd ar gael iddynt os cânt eu hethol.

O ganlyniad i'r cyhoeddiad hwn ymlaen llaw, bydd rhai addasiadau cyn iddo gael ei weithredu. Yn benodol, mae'r Bwrdd wedi gohirio penderfyniadau ar dair elfen sydd fel arfer yn cael eu hadolygu'n flynyddol: Bandiau cyflog staff cymorth, costau swyddfa a lwfansau preswyl. Rydym yn argymell bod y Bwrdd yn edrych ar y rhain ar ddechrau 2016 er mwyn i'r penderfyniad terfynol allu ystyried yn llawn unrhyw newidiadau yng nghyfraddau marchnad cyflogau Cymru, costau rhentu swyddfeydd, a chostau preswyl a llety.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r elfennau yn yr ymgynghoriad hwn naill ai a) eisoes yn rhan o Benderfyniad 2014-15, neu b) eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad mewn ymgynghoriad blaenorol. Yr unig eithriad i hyn yw'r cymorth sydd ar gael i grwpiau [Pennod 8].

Hefyd, ni allwn gadarnhau'r trefniadau pensiwn terfynol i Aelodau ar hyn o bryd. Rydym wrthi'n datblygu cynllun pensiwn newydd, a fydd yn dod i rym ym mis Mai 2016. Byddai ein cynnig – a nodir yn y Penderfyniad Drafft hwn – yn lleihau cyfraniad trethdalwyr at bensiynau Aelodau o 23.8% i 16.6% o gyflog ac yn gofyn i'r Aelodau eu hunain gynyddu eu cyfraniadau. Fel cynllun pensiwn sector cyhoeddus newydd, mae angen cymeradwyaeth Trysorlys EM, ac rydym yn disgwyl y bydd yn digwydd yn ystod haf 2015.

Ar ddechrau mis Ebrill 2015, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei fersiwn diweddaraf o'r Penderfyniad a fydd yn rhedeg o 1 Ebrill 2015 hyd at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad. Bydd y Penderfyniad newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn dod i rym ar ôl Etholiad Cyffredinol Cymru ar 5 Mai 2016.

# Prif newidiadau a gynigir i'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad

## Pennod 1: Egwyddorion Cymorth Ariannol

Mae'r Bwrdd yn credu bod yr egwyddorion a sefydlwyd gennym yn 2010 yn parhau i fod yn gadarn. Nid ydym yn cynnig newid unrhyw beth yn yr adran hon.

Rydym yn sicr na ddylai'r Penderfyniad hwn osod rhwystrau i unrhyw un rhag dod yn Aelod effeithiol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ystyriaeth o gydraddoldeb wedi cael ei phrif ffrydio a bellach wedi'i chynnwys yn y bennod ragarweiniol.

Mae'r Bwrdd wedi gweithio gyda Diverse Cymru i greu Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae Diverse Cymru wedi ein cynghori drwy gydol ein gwaith i sicrhau ein bod wedi rhoi sylw dyledus i faterion cydraddoldeb ac nad oes gan ein Penderfyniad unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gwahaniaethu. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hystyriaeth o faterion cydraddoldeb fel rhan o'n hadroddiad i gyd-fynd â chyhoeddi'r Penderfyniad terfynol ar gyfer y Pumed Cynulliad ar ddiwedd mis Mai 2015.

## Pennod 2: Rheolau cyflwyno ceisiadau

Rydym yn credu bod y rhain wedi galluogi diwylliant cyfrifol yn y Pedwerydd Cynulliad sy'n gwasanaethu'r Aelodau a'r cyhoedd yn dda. Y brif neges rydym yn ei gynnig yw cynyddu hyblygrwydd drwy alluogi Aelodau i gyflwyno hawliau milltiroedd teithio yn electronig fel ffordd arall o gyflwyno copi caled â llofnod o ffurflen hawlio.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud mwy i roi gwybod am allu'r Bwrdd i dalu'r hyn a elwir, Treuliau Eithriadol. Ni all unrhyw gyfres o reolau ysgrifenedig yn ymwneud â thalu cymorth ariannol drafod pob sefyllfa bosibl. Mae'n hanfodol bod unrhyw un a gaiff ei ethol yn Aelod Cynulliad yn gallu cyfrannu'n llawn, waeth beth fo'u hamgylchiadau personol. Ochr yn ochr â'r Gronfa Fynediad, gwelwn y cyfleuster i ystyried Treuliau Eithriadol fel ffordd o fynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu ofynion penodol a allai fod gan Aelod yn sgil ei amgylchiadau unigol.

Pan fo Aelod yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt, na chaiff ei ddarparu'n benodol yn y Penderfyniad hwn, byddwn yn ystyried cais am Dreuliau Eithriadol o dan y weithdrefn a ddisgrifir yn y Penderfyniad. [2.4]

## Pennod 3: Taliadau Aelodau

Enw'r bennod hon yn flaenorol oedd Cyflog Aelodau. Rydym wedi newid y teitl i adlewyrchu'r cyfraniad y mae trefniadau pensiwn yr Aelodau yn ei wneud i'w taliad. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd osod cyflogau ar gyfer tymor llawn y Cynulliad.

Ein hymgynghoriad ar **gyflogau Aelodau** yw rhan proffil uchaf o waith y Bwrdd, a byddwn yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Barn glir y cyhoedd oedd nad oedd talu cyflog uwch i Aelodau yn boblogaidd – yn enwedig ar adeg pan fo ataliaeth cyflog wedi effeithio ar lawer o bobl. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig bod cyn lleied o'r ymatebion wedi ymgysylltu â'r trefniadau manwl a nodwyd gennym.

Ystyriodd y Bwrdd y 64 ymateb i'r ymgynghoriad yn ein cyfarfodydd ym mis Ionawr ac eto ym mis Chwefror. Gwnaethom adolygu a oedd unrhyw beth o fewn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn mynd i'r afael â'r mater ynghylch a oedd y ffigur yn adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau a ddisgwylir gan Aelod ac nad oedd yn darparu rhwystr ariannol i'r rhai oedd am ymgeisio mewn etholiad i'r Cynulliad.

Roedd llond llaw o ymatebion yn cynnwys cynnig arall, ac roeddem yn falch o'u hasesu ochr yn ochr â'n dyfarniad cychwynnol.

Dywedodd nifer uchel o ymatebion i'r ymgynghoriad mad dyma'r amser cywir i bennu cyflog uwch i Aelodau'r Cynulliad, o ystyried y cyd-destun economaidd. Felly, eto, rhoddwyd ystyriaeth ddifrifol i oedi ein cynigion o ran cyflog neu eu cyflwyno'n raddol. Er y byddai hyn yn lleihau costau ym mlynyddoedd cyntaf y Pumed Cynulliad, byddai'n golygu talu cyflog sy'n is yn ein barn ni o'r hyn ddylai cyflog teg fod o ystyried y cyfrifoldebau a wneir gan Aelodau'r Pumed Cynulliad.

Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad, nid oes byth amser da i gynyddu cyflog cynrychiolwyr etholedig. Ond rydym yn ystyried sut i dalu Aelodau cyn dechrau Cynulliad newydd, lle mae'r ddeddfwrfa yn ymgymryd â phwerau newydd, ac yn cael ei ystyried fel Senedd o ran popeth heblaw enw gan arweinwyr yr holl brif bleidiau gwleidyddol. Bydd y Pumed Cynulliad yn debycach i Senedd yr Alban neu Senedd y DU nag unrhyw un o'i ragflaenwyr. Fodd bynnag, dim ond 60 Aelod sydd ac mae angen i bob un ohonynt wneud cyfraniad o safon. Rydym yn gobeithio, gyda gwell cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y rôl, bydd ymgeiswyr o safon uchel yn cael eu denu i'r rôl.

Felly, nid yw'r cynnydd pennawd arfaethedig yn y cyflog i £64,000 o ddechrau'r Pumed Cynulliad yn gynnydd cyflog blynyddol yn yr ystyr arferol, ond yn hytrach, mae'n talu am rôl sydd eisoes wedi newid yn sylweddol dros y Pedwerydd Cynulliad ac y bydd newid arall yn y Pumed Cynulliad ymlaen. Felly, mae'r cynnydd mewn cyflog yn debyg i gynnydd yn ymwneud â dyrchafiad o un rôl i rôl arall.

Ar ôl ail-edrych ar y rhesymeg dros ein cynnig gwreiddiol ar lefel briodol o gyflog ar gyfer y Pumed Cynulliad yn sgil ymatebion i'r ymgynghoriad, ni wnaethom ganfod unrhyw beth sylweddol i newid ein barn mai £64,000, yn gyffredinol, yw'r lefel gywir o gyflog ar gyfer pwysau swydd Aelod Cynulliad yn y Pumed Cynulliad. Er bod rhai atyniadau i oedi neu gyflwyno'r cyflog newydd yn raddol – yn bennaf gan gydnabod y cyd-destun economaidd a chyflog, yn benodol atal cyflog o fewn y sector cyhoeddus – effaith yr oedi neu gyflwyno'n raddol fyddai bod cyflog Aelodau ar lefel is na'r hyn a ystyrir yn briodol ar gyfer y rôl, felly byddai hynny ar lefel is drwy gydol y Pumed Cynulliad a byddai'n anghyson â'n

dyfarniad ni. Mae hefyd yn ymddangos yn annhebygol, yn y tymor byr i ganolig, y bydd amser a ystyrir yn amser gwell i bennu cyflog Aelodau'r Cynulliad ar lefel briodol. Felly, rydym yn cynnig mai cyfanswm y taliad i Aelodau yn y Pumed Cynulliad ddylai fod £74,600. Byddai hyn yn cynnwys cyflog o £64,000 yn ogystal â chyfraniad pensiwn gwerth tua £10,600.

I'r **deiliaid swyddi**, cynigiwyd addasiadau cymharol fach i'r cyflogau ychwanegol a gânt. Denodd yr ymgynghoriad lond llaw yn unig o ymatebion uniongyrchol, ac roedd y rhain fel arfer yn gefnogol neu'n niwtral ar y cyfan.

Gwelir ein bwriadau ar gyfer 2016-17 ochr yn ochr â'r cyflogau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn y tabl canlynol.

**Tabl 1: Crynodeb o gynigion y Bwrdd ar gyfer 2016-17**[1]

| Cyflogau deiliaid swyddi | 2015-16 cyfanswm cyflog | 2015-16 cyfanswm taliad | 2016-17 cyfanswm cyflog | 2016-17 cyfanswm taliad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad | **£54,390** | £67,300 | **£64,000*** | £74,600 |
| | | | | |
| **Swyddi Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Y Prif Weinidog | £135,260 | £167,500 | **£140,000** | £163,200 |
| Gweinidogion Cymru | £96,339 | £119,300 | **£100,000** | £116,600 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £96,339 | £119,300 | **£100,000** | £116,600 |
| Dirprwy Weinidog | £80,775 | £100,000 | **£85,000** | £99,100 |

[1] *Mae'r ffigurau ar gyfer cyfanswm y taliadau (tâl yn ogystal â chyfraniadau pensiwn cyflogwyr) wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf, gan mai amcangyfrifon yw'r rhain.*

| Cyflogau deiliaid swyddi | 2015-16 cyfanswm cyflog | 2015-16 cyfanswm taliad | 2016-17 cyfanswm cyflog | 2016-17 cyfanswm taliad |
|---|---|---|---|---|
| **Swyddi'r Cynulliad Cenedlaethol** | | | | |
| Y Llywydd | £96,339 | £119,300 | **£105,000** | £122,400 |
| Y Dirprwy Lywydd | £80,775 | £100,000 | **£85,000** | £99,100 |
| | | | | |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £66,810 | £82,700 | **£77,000** | £89,800 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch) | £66,810 | £82,700 | **£77,000** | £89,800 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (is) | £62,670 | £77,600 | **£72,660** | £84,700 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | Amherthnasol[2] | Amherthnasol | **£72,660** | £84,700 |
| | | | | |
| Arweinydd grŵp un o'r gwrthbleidiau (14)[3] | £80,810 | £100,000 | **£91,000** | £106,100 |
| Arweinydd grŵp un o'r gwrthbleidiau (11) | £77,630 | £96,100 | **£88,000** | £102,600 |
| Arweinydd grŵp un o'r gwrthbleidiau (5) | £71,810 | £88,900 | **£82,000** | £95,600 |
| | | | | |

Denodd ein hymgyngoriadau ar **bensiynau** ystod gyfyngedig o ymatebion. Rydym yn ddiolchgar i Ymddiriedolwyr y cynllun cyfredol am eu hadborth a'u cyfraniad.

Nid yw Trysorlys EM wedi cymeradwyo ein cynnig ar gyfer y pensiynau eto. Nid ydym yn rhagweld cael y gymeradwyaeth ffurfiol honno tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac efallai y bydd angen i ni newid rhai manylion o'r Cynllun fel rhan o'r broses gymeradwyo.

Yn amodol ar y cafeat, rydym yn cynnig gostyngiad sylweddol yn y gost o ariannu pensiynau Aelodau. Bydd y cyfraniad a wneir gan y Cynulliad yn gostwng gan swm sy'n

[2] *Yn 2015, gwnaed taliadau i reolwyr busnes yn gymharol â maint eu grŵp.*

[3] *Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn cynrychioli maint y grwpiau hyn yn y Cynulliad. Efallai y bydd grwpiau yn y Cynulliad nesaf o feintiau gwahanol ond rydym wedi defnyddio'r ffigurau presennol yn ein rhagolwg er mwyn cael cymhariaeth syml.*

hafal i tua 7.2% o gyflogau cyfunedig Aelodau. Yn ogystal, bydd gofyn i Aelodau wneud cyfraniadau uwch na'r hyn a wneir o dan y cynllun pensiwn presennol.

Nodwyd manylion ein cynnig yn ein **hail ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn y dyfodol i Aelodau'r Cynulliad** ym mis Gorffennaf 2014.

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif bensiwn a buddion yr ydym yn eu cynnig:

**Tabl 2: Prif fuddion y Cynllun Pensiwn Newydd arfaethedig i Aelodau'r Cynulliad**

| Y prif fuddion | |
|---|---|
| Math o fudd | Enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbrisio |
| Ailbrisiad | Mynegai prisiau defnyddwyr |
| Cynnydd mewn pensiynau | Mynegai prisiau defnyddwyr |
| Y gyfradd groniadau flynyddol | 1/50 o'r enillion |
| Yr oedran ymddeol arferol | 65 oed i bawb neu oedran ymddeol y wladwriaeth os yw hwnnw'n uwch |
| Pensiwn y priod/partner sy'n goroesi (yn achos marwolaeth pan delir pensiwn eisoes) | 1/2 y pensiwn gwirioneddol sy'n daladwy adeg marwolaeth[4] |
| Pensiwn y priod/partner sy'n goroesi (yn achos marwolaeth mewn swydd) | 1/2 y pensiwn a fyddai wedi cronni erbyn yr oedran ymddeol arferol[5] |
| Pensiwn y priod/partner sy'n goroesi (yn achos marwolaeth pensiynwr gohiriedig) | 1/2 y pensiwn gohiriedig sy'n daladwy adeg marwolaeth[6] |
| Cyfandaliad marwolaeth mewn swydd | 2 x cyflog |
| Buddion ymddeoliad oherwydd salwch | Yn unol â threfniadau'r cynllun presennol |
| Ffactorau cymudo | Yn gyson â'r fethodoleg bresennol |
| Ymddeoliad cynnar/hwyr | Yn gyson â'r fethodoleg bresennol |
| Y gyfradd gyfraniadau safonol yn seiliedig ar ragdybiaethau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi | 27.6%[7] |

[4] *O dan y cynllun presennol, byddai'r priod/partner sy'n goroesi yn cael 5/8 o'r pensiwn gwirioneddol sy'n daladwy adeg y farwolaeth.*

[5] O dan y cynllun presennol, byddai'r priod/partner sy'n goroesi yn cael 5/8 o'r pensiwn a fyddai wedi cronni erbyn yr oedran ymddeol arferol.

[6] *O dan y cynllun presennol, byddai'r priod/partner sy'n goroesi yn cael 5/8 o'r pensiwn gohiriedig sy'n daladwy adeg y farwolaeth.*

[7] *Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o'r gost o ddarparu diogelwch trosiannol, sef 1.2% o'r gyflogres am bum mlynedd. Dim ond cost croniadau'r dyfodol a ddangosir. Nid yw'r ffigurau yn caniatáu ar gyfer y cyfraniadau sydd eu hangen i gael gwared ag unrhyw ddiffyg o ran gwasanaeth yn y gorffennol. Cynigir tybiaethau amgen yn Atodiad C o'n dogfen ymgynghori Gorffennaf 2014ar Bensiynau.*

| Y prif fuddion | |
|---|---|
| Cyfraniad yr Aelodau yn seiliedig ar ragdybiaethau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi | 11.0% |
| Cyfraniad y 'cyflogwr' yn seiliedig ar ragdybiaethau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi | 16.6% |
| Cymhareb cyfraniadau'r Aelodau/cyflogwr | 60:40 |
| Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol | Mae'r Bwrdd yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno trefniant lle caiff Aelodau Cynulliad wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar sail cyfraniad wedi'i ddiffinio i ychwanegu at gynllun pensiwn 'prynu arian'. |
| Trefniadau pensiwn ar gyfer deiliaid swyddi | Caiff y buddion a gronnwyd hyd at fis Mai 2016 eu diogelu. Bydd cyflogau pob deiliad swydd yn destun y trefniadau newydd o ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen, gan gynnwys yr Aelodau Cynulliad hynny sy'n gymwys am ddiogelwch trosiannol "grandfathering". |
| Diogelwch trosiannol ("grandfathering") | Pum mlynedd o ddiogelwch trosiannol o fis Mai 2016 ymlaen ar gyfer y rhai a oedd o fewn deng mlynedd o'r oedran ymddeol arferol ym mis Ebrill 2012. |
| Rheol 80 | Ar gael yn unig i'r rhai sydd â chyfnod di-dor o wasanaeth o dan y cynllun ers cyn 1 Ebrill 2007 hyd at ddyddiad eu hymddeoliad cynnar. |

## *Mynegeio blynyddol Cyflogau Aelodau*

Er bod nifer cyfyngedig yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod ychydig o ffafriaeth i gysylltu newidiadau mewn cyflogau Aelodau yn y dyfodol â chyflog y sector cyhoeddus, mae'r Bwrdd yn credu y dylai newidiadau blynyddol i gyflog Aelodau adlewyrchu'r dalgylch ehangaf posibl y boblogaeth maent yn ei chynrychioli. I'r perwyl hwnnw, o 2017, byddwn yn mynegi cyflog Aelodau (a deiliaid swyddi) ym mis Ebrill bob blwyddyn i'r newid blynyddol (i fyny neu i lawr) ym mynegai Enillion Canolrif ASHE yng Nghymru a gyhoeddir ym mis Mawrth y flwyddyn honno.

## Pennod 4: Gwariant ar Lety Preswyl

Rydym yn cynnig cadw sylfaen y system bresennol, lle mae lwfansau yn amrywio yn ôl y pellter y mae Aelod yn byw o Gaerdydd, gydag ardaloedd mewnol, rhyngol ac allanol. Fodd bynnag, rydym yn cynnig gwneud newid sylweddol sy'n effeithio ar Aelodau sy'n agos at ffin yr ardal allanol. Yr Aelodau hyn sydd fwyaf tebygol o fod ag amseroedd teithio sylweddol i ac o'r Cynulliad er nad ydynt yn gymwys i gael llety preswyl parhaol yng Nghaerdydd. Yn unol â'n thema o gynnig mwy o hyblygrwydd, byddwn yn caniatáu i Aelodau nad ydynt yn yr ardal allanol i gyflwyno achos busnes os ydynt yn teimlo bod eu hamgylchiadau unigol yn cyfiawnhau trefniadau gwahanol mewn cysylltiad â llety preswyl. Byddem hefyd yn ystyried achosion tebyg gan Aelodau yn yr ardal fewnol y mae eu cartref yn agos at ffin yr ardal ryngol. [4.1.3]

I Aelodau yn yr ardal fewnol, rydym yn cael gwared ar yr hawl awtomatig i gael uchafswm o nosweithiau mewn gwesty yng Nghaerdydd bob blwyddyn. Byddwn ond yn ad-dalu nosweithiau mewn gwesty yng Nghaerdydd mewn amgylchiadau eithriadol. [4.2.1]

Rydym yn argymell bod ein Bwrdd olynol yn adolygu faint y gellir ei hawlio am rent (Aelodau mewn ardaloedd allanol) a gwesty (Aelodau mewn ardaloedd allanol a rhyngol) ym mis Ionawr 2016.

Rydym yn cynnig y dylai Aelodau mewn ardal allanol, a all ddangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yng Nghaerdydd, gael hawl i £1,440 y flwyddyn i dalu am gostau uwch angenrheidiol ar gyfer llety preswyl. Byddai unrhyw daliad ychwanegol yn amodol ar y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn cymeradwyo achos busnes. [4.4.3h]

Bydd nifer fach sy'n lleihau o Aelodau yn yr ardal allanol sydd wedi bod yn gwasanaethu ers hir yn dal i gael ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau llog morgais ar eiddo eu hunain. Er nad yw hyn yn cael ei ganiatáu bellach i Aelodau a gafodd eu hethol ers mis Mai 2011, rydym wedi caniatáu iddo barhau. Gyda chyfraddau llog isel, mae hyn yn creu arbedion sylweddol i'r trethdalwr o gymharu â llety rhent. Caniateir i Aelodau yn y sefyllfa hon hawlio hyd at 10% o uchafswm eu treuliau llety preswyl tuag at y gost o waith adnewyddu hanfodol i'w heiddo. Ni fyddant yn cael eu had-dalu am gostau eraill yn gysylltiedig â llety preswyl, fel prynu nwyddau parhaol i ddefnyddwyr.

Nid yw'r Bwrdd yn cynnig unrhyw newid i drefniadau ar gyfer aros dros nos y tu allan i Gaerdydd. [4.5]

## Pennod 5: Siwrneiau'r Aelodau

Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r bennod hon.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i annog Aelodau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio cynaliadwy lle bo hynny'n ymarferol. Bydd Aelodau sy'n teithio mewn car yn parhau i gael eu had-dalu yn unol â'r gyfradd filltiroedd a bennir gan Gyllid a

Thollau Ei Mawrhydi. Yn unol â rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, mae hyn yn golygu y bydd cyfradd is yn gymwys i hawliadau ar ôl y 10,000 milltir busnes cyntaf bob blwyddyn.

## Pennod 6: Costau Swyddfa

Rydym yn cynnig nifer o newidiadau bychan yn y bennod hon.

Bydd Aelodau yn gallu cynyddu faint sydd ar gael i dalu am eu costau swyddfa hyd at £4,253+CPI[8] drwy drosglwyddo cronfeydd heb eu defnyddio o'u gwariant ar staffio. O ganlyniad i adborth ar yr ymgynghoriad, mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chyflwyno o fis Ebrill 2015, yn hytrach nag aros ar gyfer y Cynulliad newydd. [6.1.7]

Ni chaniateir i drosglwyddo arian cyfatebol i'r cyfeiriad arall (h.y. o wariant ar gostau swyddfa i wariant ar staffio).

Gyda chymeradwyaeth y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, gall Aelodau yn y Pumed Cynulliad dynnu i lawr hyd at £4,253+CPI[9] o'u blwyddyn ariannol nesaf mewn amgylchiadau eithriadol. Bwriad hyn yw rhoi mwy o hyblygrwydd ariannol i Aelodau tra'n cynnal gwaith rheoli a llywodraethu priodol. [6.8]

Bydd Aelodau sydd newydd gael eu hethol yn cael dewis eu cyflenwyr eu hunain wrth ddefnyddio'r £5,000 sydd ar gael i brynu dodrefn a chyfarpar i'w swyddfa etholiadol neu ranbarthol newydd. Dim ond un cyflenwr cymeradwy oedd yn y gorffennol. [6.3]

Bydd Aelodau sydd wedi bod yn gwasanaethu am amser hwy (y rhai sydd eisoes wedi gwasanaethu dau dymor neu fwy) yn gallu hawlio grant unigol o hyd at £1,000 yn 2016-17 tuag at adnewyddu hen ddodrefn ac offer. [6.3.5]

Bydd gostyngiad yn y swm y mae'n rhaid i Aelodau dalu o'u costau swyddfa cyn gallu hawlio am addasiadau iechyd a diogelwch angenrheidiol neu waith diogelwch mewn swyddfeydd etholiadol neu ranbarthol. O fis Mai 2016, bydd symiau o dros £500 yn hytrach na £1,000 yn cael eu talu'n ganolog. [6.5&6.6]

Rydym yn argymell bod ein Bwrdd olynol yn adolygu'r swm y gellir ei hawlio am gostau swyddfa ym mis Ionawr 2016. Y gyfradd ar gyfer 2015-16 yw £17,014+CPI[10] [6.1.3]

## Pennod 7: Cymorth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Mae'r Bwrdd wedi mynegi ei bryderon ynghylch maint y Cynulliad i gyflawni'r cyfrifoldebau sylweddol a chynyddol sydd ganddo gyda dim ond 60 Aelod. Er mwyn helpu gyda nifer yr Aelodau, rydym wedi penderfynu y dylai Aelodau gael hyblygrwydd i recriwtio un o'u tri

---

[8] *Dyma'r ffigur ar gyfer 2015-16. Gall newid yn dilyn adolygiad y Bwrdd ym mis Ionawr 2016.*
[9] *Fel uchod.*
[10] *Fel uchod.*

cyflogai cyfwerth ag amser llawn ar gyfer rôl newydd Uwch-gynghorydd. Caiff y swyddi hyn eu talu ar lefel (ystod cyflog 2014-15 £31,016 i £37,885) a oedd ond ar gael yn flaenorol i uwch aelodau o staff fel Cymorth Grŵp Ychwanegol gan y grwpiau gwleidyddol. Bwriad hyn yw gwella gallu cyffredinol y Cynulliad a'i Aelodau. [7.1]

Mewn ymateb i adborth gan Staff Cymorth ac Aelodau, ac yn unol â pholisïau nifer o gyflogwyr, mae'r Bwrdd wedi cytuno i ddau ychwanegiad i amodau Staff Cymorth, a hynny ar unwaith:

– Cyflwyno darpariaeth marw yn y swydd i staff cymorth yr Aelodau, sy'n daladwy ar ddwywaith cyfradd y cyflog ar ddyddiad y farwolaeth (neu ddwywaith cyflog y flwyddyn flaenorol, pa un bynnag sydd fwyaf). [7.4]

– I wella taliadau dileu swydd o un a hanner gwaith cyflog dileu swydd statudol i ddwywaith cyflog dileu swydd statudol i staff cymorth y mae eu swyddi yn cael eu dileu heb rybudd ymlaen llaw. [7.10]

Er budd mwy o hyblygrwydd, rydym yn cynnig cael gwared ar y nenfwd o £2,000 ar gyfer staff cymorth yr Aelodau sy'n hawlio teithio a goramser, yn amodol ar y ffaith bod cronfeydd ar gael o fewn y gyllideb berthnasol. [Mae hyn yn ymddangos yn 7.3.1 yn y Penderfyniad 2015-16]

Mae Aelodau a'u staff wedi cefnogi, gan fwyaf, gynnig y Bwrdd i gynyddu cyfnod rhybudd safonol i newydd-ddyfodiaid i wythnos o rybudd yn y tri mis cyntaf o wasanaeth, a phedair wythnos o rybudd ar ôl hynny. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn newid i'r contract cyflogaeth safonol ar gyfer staff cymorth yr Aelodau.

Cafodd awgrym y Bwrdd y dylai cynllun prentisiaeth llwyddiannus Comisiwn y Cynulliad gael ei ymestyn i staff cymorth yr Aelodau ymateb da yn yr ymgynghoriad. Rydym yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda grwpiau'r pleidiau i edrych ar sut y gellir gweithredu hyn.

Mae'r Bwrdd yn cynnig newid i [7.10] Lwfans Staffio Dros Dro. Ar gais, gall y Bwrdd gytuno i ymestyn y Lwfans Staffio Dros Dro [7.10.2] i dalu am aelod o staff sydd wedi'i wahardd ar gyflog, pan fydd y gwaharddiad hwnnw wedi'i gytuno gyda'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried sut y gallai ddefnyddio ei Benderfyniad i gyfrannu at amcan strategol y Comisiwn i wella cyfathrebu â'r cyhoedd. I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd wedi penderfynu cynyddu maint y Gronfa Polisi ac Ymchwil o £2,000 i £2,500 fesul Aelod ac i ymestyn diffiniad o ddefnydd o'r Gronfa. Bydd y diffiniad ehangach yn cynnwys gallu i ddefnyddio'r Gronfa Polisi ac Ymchwil ar gyfer cyfathrebu ag etholwyr ar faterion sydd o fudd i'r cyhoedd – nid materion gwleidyddol. Rydym yn gobeithio y bydd y terfyn uwch a'r hyblygrwydd yn annog defnydd hyd yn oed yn well ar gyfer ymchwil ac ymgysylltu ag etholwyr. Bydd yr hyblygrwydd ychwanegol hwn yn ddarostyngedig i reolau clir a thryloyw a gaiff eu cyhoeddi cyn dechrau'r Pumed Cynulliad. Mewn ymateb i bryderon gan grwpiau

pleidiau, mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd defnyddio'r Gronfa Polisi ac Ymchwil ar gyfer cyfathrebu yn cael ei adolygu ar adeg sy'n addas ar ôl 12-18 mis i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol. [7.11]

# Pennod 8: Cymorth i Grwpiau

Rydym yn cynnig yr un newidiadau i amodau (marw yn y gwaith a thaliadau dileu swydd) i Staff Grŵp fel y nodir eisoes ar gyfer Staff Cymorth. [8.5]

**Rydym hefyd yn cynnig system newydd ar gyfer dyrannu cymorth i grwpiau [8.2]. Nid ydym wedi ymgynghori ar hyn yn ffurfiol eto, felly mae ein syniadau ni ar y testun hwn i'w gweld isod yn fanwl.**

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gofyn i Reolau Sefydlog y Cynulliad fanylu isafswm maint grŵp gwleidyddol. Ers 1999, yr isafswm maint a bennwyd oedd tri Aelod. Yn sgil statws grŵp, ceir nifer o hawliau a chyfrifoldebau fel lle ar Gomisiwn y Cynulliad, y Pwyllgor Busnes a phwyllgorau yn gyffredinol. Mae'n sail ar gyfer llawer o waith trefnu a gweithredu ymarferol y Cynulliad.

Ar hyn o bryd, mae hefyd yn ysgogydd ar gyfer cymorth ariannol a ddarparwyd gan y Bwrdd Taliadau. Rydym yn cynnig newid y sail y darperir yr arian hwnna gan nodi'r newidiadau yr ydym yn eu hystyried, er mwyn ymgynghori arnynt.

## *Y system bresennol*

Mae system o gymorth ariannol i grwpiau gwleidyddol wedi bodoli ers ffurfio'r Cynulliad. Dyma brif nodweddion y system fel y mae'n gweithredu yn 2014-15:

- Mae hawl gan grŵp o dri Aelod neu fwy, a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru, gael ychydig dros £146,000;
- Mae hawl gan grŵp o rhwng 3 a 10 Aelod, **nad** ydynt wedi'u cynrychioli yn Llywodraeth Cymru, gael tua £222,300;
- Mae hawl gan grŵp o dros 10 Aelod **nad** ydynt wedi'u cynrychioli yn Llywodraeth Cymru, gael £35,600 pellach am bob pum Aelod ychwanegol yn y grŵp.

Yn ymarferol, mae hyn yn arwain at dalu'r symiau canlynol yn 2014-15 i'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad.

| Grŵp | Aelodau | Yn y Llywodraeth | Arian £000 |
|---|---:|---:|---:|
| Llafur | 30 | Ydy | 146 |
| Ceidwadwyr | 14 | Nac ydy | 258 |
| Plaid Cymru | 11 | Nac ydy | 258 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 | Nac ydy | 222 |
| Cyfanswm | 60 | | 884 |

Ar y cyfan, defnyddir yr arian i gyflogi staff i ddarparu gwaith ymchwil, cyfathrebu, gwaith gweinyddol a chymorth arall i'r grŵp.

Mae Atodiad A yn dangos lefel yr arian a ddarperir i bleidiau yn y Cynulliad, yn Senedd yr Alban a Thŷ'r Cyffredin. Ar sail y pen, mae'r cyllid yn y Cynulliad, ar yr un pryd, yn hael ac yn fwy amrywiol na mannau eraill.

Mae'r cyllid i grwpiau yn y Cynulliad yn wahanol i'r Alban a San Steffan mewn dwy ffordd:

– Rhoddir cyllid i bob grŵp, gan gynnwys unrhyw rhai mewn llywodraeth[11];

– Mae'n seiliedig ar fandio yn hytrach na symiau ar sail y pen ar gyfer pob Aelod.

Y brif ddadl o blaid dull cymharol hael y Cynulliad yw ei fod yn adlewyrchu ei maint bychan, gan ganiatáu am rywfaint o gymorth er mwyn galluogi Aelodau sydd â llawer o faich gyflawni eu swyddi yn effeithiol. Mae cynnig cymorth i bob plaid yn adlewyrchu'r ethos y tu ôl i'r Cynulliad, yn enwedig yn ei ddyddiau cynnar. Roedd y syniad traddodiadol o lywodraeth a gwrthblaid yn llawer llai amlwg pan sefydlwyd y Cynulliad i ddechrau fel un corff corfforaethol gyda, mewn theori, pob plaid ac Aelod â rhywfaint o rôl wrth wneud penderfyniadau gweithredol. Erbyn heddiw, er bod diffiniad clir o ran pwy sydd â chyfrifoldeb gweithredol, mae arferion gwaith y Cynulliad yn dal i ystyried bod gan bob rôl swydd arwyddocaol o ran goruchwylio a deddfu.

Er bod y system bresennol wedi gwasanaethu'r sefydliad yn ddigonol a bod y grwpiau gwleidyddol personol yn ei chefnogi'n gyffredinol, mae sawl ffactor sy'n cyfiawnhau newid ym marn y Bwrdd. Yn benodol:

– nid yw'r meddwl a'r cyfiawnhad y tu ôl i'r cynllun gwreiddiol a'i esblygiad yn dryloyw;

– er bod ganddo gefnogaeth eang hyd yma, gallai cyflawni canlyniadau cyllid afreolaidd yn y dyfodol, yn dibynnu ar ganlyniadau etholiadau;

– byddai'r lefel o gyllido, sydd eisoes yn hael, yn amrywio'n sylweddol os bydd nifer y grwpiau yn y Cynulliad yn newid oherwydd canlyniadau etholiadau neu ddiffiniad y Cynulliad o grŵp (h.y. 3 Aelod); ac

– nid yw'n rhoi unrhyw gymorth i Aelodau unigol neu bleidiau llai nad ydynt yn cyrraedd y trothwy grŵp.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i roi system ddiwygiedig ar waith sy'n pasio nifer o brofion:

a) Dylai flaenoriaethu cymorth ar gyfer craffu ar y llywodraeth yn effeithiol;
b) Dylai weithredu yn rhesymegol o dan wahanol ganlyniadau etholiadol a modelau o lywodraeth;

---

[11] *Yn yr Alban, gall plaid mewn llywodraeth glymblaid hawlio cyllid, ar yr amod nad oes gan y blaid fwy o weinidogion neu is-weinidogion nag un rhan o bump o'r cyfanswm.*

c) Dylai sicrhau bod gan bob plaid (gan gynnwys y rhai mewn llywodraeth) gymorth gweinyddol digonol i weithredu mewn modd cydlynol ac effeithlon.
d) Dylai cyfanswm cost y cymorth gael ei gyfyngu i swm a bennir gan y Bwrdd a dylai'r holl gyfanswm hwnnw gael ei ddosbarthu;
e) Dylai'r swm a dderbynnir gan bleidiau nad ydynt mewn llywodraeth, mewn rhyw ffordd, adlewyrchu eu maint cymharol;
f) Dylai pleidiau bach ac Aelodau unigol gael eu cefnogi ar lefel sy'n eu galluogi i chwarae rhan effeithiol yn y broses graffu;
g) Ni ddylai gwahaniaethau neu newidiadau bach mewn maint plaid arwain at newidiadau dramatig yn yr arian.

## *Ein cynnig*

Mae gan y diffiniad ffurfiol o grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad oblygiadau o ran gweithredu'r sefydliad ei hun a rheoli busnes seneddol ffurfiol. Felly, mae'n fater i Aelodau benderfynu arno. Wrth ddyrannu arian, ein hamcan yw cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynulliad cyfan yn effeithiol. I wneud hynny, ein barn ni yw y dylem roi cymorth i bob plaid, waeth beth fo'u maint, ac unrhyw Aelod unigol a etholir fel unig gynrychiolydd eu plaid yn y Cynulliad. Felly, rydym yn bwriadu torri'r cyswllt rhwng yr arian a ddarparwn a phenderfyniad ar wahân y Cynulliad ar isafswm maint grŵp gwleidyddol.

Deddfwrfa fach yw'r Cynulliad lle mae baich gwaith craffu a goruchwylio yn cael ei wneud gan tua 40 o Aelodau y gwrthbleidiau ac Aelodau meinciau cefn y Llywodraeth. Felly, mae'n hanfodol bod pob un o'r Aelodau yn gallu chwarae rhan lawn ac effeithiol yn dwyn y llywodraeth i gyfrif a chynnig dewisiadau adeiladol o ran polisi a deddfwriaeth. Bydd ein system arfaethedig yn galluogi hynny ac yn pasio pob un o'r profion a nodir uchod.

O dan ein cynnig, bydd y Bwrdd Taliadau yn gosod y cyfanswm i'w ddosbarthu ar gyfer cymorth i bleidiau. At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi defnyddio'r ffigur o £900,000 h.y. tua'r un faint ag sy'n cael ei roi i'r pedair plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad ar hyn o bryd.

## *Cyllid i bleidiau mewn llywodraeth*

Er na chaiff pleidiau mewn llywodraeth eu hariannu o gwbl yn San Steffan a'r Alban, rydym yn ystyried bod gwerth i'r Cynulliad wrth roi cymorth i'w gwaith trefnu a gweinyddu effeithiol. Yn wahanol i'r system bresennol, fodd bynnag, rydym yn cynnig y bydd y taliad i bleidiau a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru yr un fath, p'un a yw'r llywodraeth yn cynnwys un blaid neu glymblaid. Beth bynnag fo'r strwythur gwleidyddol, bydd swm craidd yn cael ei dalu i'r blaid neu'r pleidiau a gynrychiolir yn y llywodraeth. At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi rhagdybio £150,000. Ar gyfer pob Aelod ychwanegol uwchben 30 yn y llywodraeth, byddai lefel gyfartalog o arian craidd y llywodraeth hefyd yn cael ei dalu (hy £5,000 ar gyfer pob Aelod ychwanegol - £150,000/30).

Felly, er enghraifft, os oes 33 Aelod mewn plaid neu bleidiau mewn llywodraeth, byddent yn cael £165,000 i gefnogi eu gwaith trefnu a gweithredu effeithiol yn y Cynulliad. Gallai'r Bwrdd Taliadau osod rheolau i benderfynu sut y dylai'r swm a dderbynnir gael ei ddyrannu rhwng dwy blaid neu fwy mewn llywodraeth glymblaid. Ein rhagdybiaeth ar hyn o bryd, fodd bynnag, y byddai'n well gadael hyn i'r pleidiau eu hunain i gytuno arno fel rhan o'u trafodaethau clymbleidiol. Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud tan y bydd pob plaid dan sylw wedi cytuno ar y ffordd o'i ddosbarthu.

## *Cyllid i bleidiau nad ydynt mewn llywodraeth*

Prif bwrpas y cyllid a ddarparwn, fel yn San Steffan a'r Alban, yw i gefnogi gwaith craffu a goruchwylio y sefydliad.  Felly, bydd gweddill y cyfanswm a bennir gan y Bwrdd yn cael ei ddosbarthu ymysg yr Aelodau a'r pleidiau nad ydynt mewn llywodraeth.

Ers creu'r Cynulliad, mae wedi ystyried tri Aelod o'r un blaid fel trothwy pwysig ar gyfer gweithredu effeithiol[12]. Felly, rydym yn cynnig y dylai unrhyw blaid nad yw'n rhan o'r llywodraeth yn y Cynulliad sydd â thri Aelod neu fwy gael lefel gychwynnol o arian craidd. At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig £50,000. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rydym yn cynnig na ddylid newid yr isafswm hwn o dri Aelod er mwyn bod yn gymwys am arian craidd, hyd yn oed os bydd Cynulliad yn y dyfodol yn amrywio ei ddiffiniad o grŵp gwleidyddol.

Bydd maint y swm sy'n weddill mewn unrhyw Gynulliad yn dibynnu ar strwythur y llywodraeth a nifer y pleidiau y tu allan i'r llywodraeth sy'n gymwys am arian craidd. Rydym yn cynnig bod balans yr arian a ddyrennir yn cael ei ddosbarthu ymysg pob plaid yn y gwrthbleidiau yn gymesur â'u cryfder cymharol, h.y. ar sail y pen. Bydd hyn yn cynnig cyllid hael i'r gwrthbleidiau mwy i'w helpu i gynnig gweledigaeth arall i Gymru a herio cynigion y llywodraeth yn adeiladol. Am y tro cyntaf, bydd hefyd yn cynnig swm ystyrlon i hyd yn oed un Aelod annibynnol, sydd heb gefnogaeth peiriant plaid, i gael cymorth ychwanegol.

## *Darlun o'r system a gynigir*

Os caiff ei gymhwyso i strwythur presennol y Cynulliad, gyda £900,000 wedi'i bennu gan y Bwrdd fel y cyfanswm i'w ddosbarthu, bydd y system a gynigir yn rhoi'r canlyniadau canlynol:

| Grŵp | Aelodau | Craidd £000 | Ychwanegiad fesul Aelod £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Llafur | 30 | 150 | - | 150 |
| Ceidwadwyr | 14 | 50 | 280 | 330 |
| Plaid Cymru | 11 | 50 | 220 | 270 |

[12] *Ers 1999, isafswm maint grŵp gwleidyddol, fel y diffinnir gan Reolau Sefydlog y Cynulliad, yw tri Aelod.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 | 50 | 100 | 150 |
| Cyfanswm | 60 | 300 | 600 | 900 |

Os oedd Cynulliad heddiw yn cynnwys plaid gyda dim un ond un Aelod etholedig, byddai'r system a gynigiwn yn rhoi tua £20,000 i'r Aelod hwnnw. Wrth gwrs, bydd y nifer hwn yn amrywio yn dibynnu ar faint y blaid/pleidiau sy'n llywodraethu a nifer y pleidiau sy'n gymwys i gael arian craidd[13].

## *Crynodeb o'n cynnig*

*Cyfanswm y cymorth i bleidiau* – mae'r Bwrdd Taliadau yn pennu'r cyfanswm a ddyrennir ar gyfer cymorth plaid;

*Craidd plaid yn y Llywodraeth* – mae'r blaid neu'r pleidiau a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru yn cael swm craidd, a bennir gan y Bwrdd;

*Ychwanegiad Aelod yn y Llywodraeth* - os yw'r blaid neu'r pleidiau a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru yn cynnwys mwy na 30 Aelod, caiff lefel gyfartalog arian craidd plaid yn y llywodraeth (h.y. craidd plaid yn y llywodraeth/30) ei dalu mewn cysylltiad â phob Aelod ychwanegol;

*Craidd plaid nad yw'n rhan o'r llywodraeth* – bydd unrhyw blaid gyda thri Aelod neu fwy, nad ydynt wedi'u cynrychioli yn Llywodraeth Cymru, yn cael swm craidd a bennir gan y Bwrdd;

*Ychwanegiad Aelod nad yw'n rhan o'r llywodraeth* – caiff gweddill y balans o gefnogaeth y cymorth i bleidiau ei ddyrannu i bob plaid ac Aelod nad ydynt wedi'u cynrychioli yn Llywodraeth Cymru ar sail y pen.

Dylid ystyried y system o gymorth i bleidiau a gynigir yma ochr yn ochr â'r newid arall a gynigiwn i wneud trefniadau cymorth staffio ar gael i bob Aelod Cynulliad unigol. Er mwyn cynyddu gallu, cynigiwn y gall pob Aelod Cynulliad, os ydynt yn dymuno, gyflogi aelod o staff mewn swydd newydd ar gyflog uwch fel Uwch-gynghorydd [7.1.3]. Bydd lwfans staffio pob Aelod yn cael ei gynyddu yn unol â hynny i ariannu'r newid hwn. Ar hyn o bryd, ac wrth gadw at ein thema o hyblygrwydd, bydd Aelodau yn rhydd i drosglwyddo cronfeydd o'u cyllidebau staffio unigol i ychwanegu at y system bleidiau a ddisgrifir yma os ydynt yn dymuno.

*[13] Ni fyddai plaid ag un Aelod yn gymwys i gael cymorth ariannol craidd, ond byddai'n cael yr ychwanegiad Aelod nad yw yn y llywodraeth, h.y. swm sy'n hafal i'r cyfanswm a ddyrennir ar gyfer cymorth plaid llai'r arian a ddarperir i bleidiau a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru a'r arian craidd a ddarperir i bleidiau cymwys nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth, oll wedi'i rannu gan nifer yr Aelodau plaid nad ydynt mewn llywodraeth.*

# Pennod 9: Aelodau sy'n Gadael eu Swyddi

Mae Cydraddoldeb a Mynediad (a oedd yn ymddangos ym Mhennod 9 mewn penderfyniadau blaenorol) bellach wedi'i gynnwys ym Mhennod 1. Pennod 10 oedd y bennod hon mewn fersiynau cynharach o'r Penderfyniad.

Bydd y 'trefniadau pontio' ar gyfer talu Grant Adsefydlu uwch i Aelodau sydd wedi bod yn gwasanaethu ers hir (yn gyffredinol, y rhai oedd yn Aelodau'r Cynulliad yn y Trydydd Cynulliad ac sydd wedi parhau yn Aelodau) yn cael ei ddiddymu'n raddol erbyn dechrau'r Chweched Cynulliad.

Bydd y trefniadau pontio yn parhau i gael eu talu ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad. Ar ddiwedd y Pumed Cynulliad, bydd y swm pontio sy'n daladwy yn cael ei leihau 50%. Ni fydd yn daladwy ar ôl hynny, ac yna bydd pob Aelod yn cael yr un taliadau Grant Adsefydlu. [9.4]

Mae'r Bwrdd wedi ystyried a fyddai'n bosibl cynnig rhyw fath o wasanaeth cynghori a ddarperir yn allanol am gyfnod cyfyngedig i gefnogi'r Aelodau hynny sy'n colli eu sedd mewn etholiad. Rydym yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried yr awgrym hwn yn fanylach.

## *Costau*

Cost Penderfyniad y Bwrdd ar gyfer 2013-14 (y flwyddyn ddiwethaf a gwblhawyd) oedd £13.2 miliwn. Y gwariant a ragwelir ar gyfer eleni (2014-15) yw £13.3 miliwn.

Mewn termau real, mae cost y Penderfyniad ym mhob blwyddyn y Pedwerydd y Cynulliad wedi bod yn llai na'r Trydydd Cynulliad.

Ar gyfer blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad (2016-17) bydd pedwar cost ychwanegol yn seiliedig ar gynnig y Bwrdd i fuddsoddi mewn gallu ac ansawdd, sy'n hafal i £835,013:

- £813,000 ar gyfer cyflogau Aelodau; mae newidiadau yn y ffordd y cyfrifir Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynnwys £71,000 o'r swm hwn.
- Arbedion o £315,000 yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwr (mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gynnig ymgynghoriad pensiynau ac yn ddarostyngedig i Drysorlys EM yn cymeradwyo'r cynllun pensiwn)
- £336,000 ar gyfer uwch-gynghorydd i staff cymorth Aelodau a newidiadau ar gyfer staff grŵp (uchafswm, os yw 100% yn manteisio ar y cynnig - mae'r gwariant yn debygol o fod yn llawer llai yn y flwyddyn gyntaf). Mae newidiadau yn y ffordd y cyfrifir Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynnwys £167,000 o'r swm hwn.
- £20,000 ar gyfer ymestyn y Gronfa Polisi ac Ymchwil (mae 3/4 o hyn yn sgil rhagweld y bydd rhagor yn ei defnyddio).

Hefyd, nid yw'r Bwrdd wedi adolygu'r tair elfen sy'n cyfrif am gyfran fwyaf y costau cyffredinol. Bydd y Bwrdd olynol yn ymgynghori ar unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i'r elfennau canlynol ar ddechrau 2016:

– Cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

– Costau Swyddfa, a

– Lwfansau Preswyl.